


# Rhentu Doeth Cymru Canllaw Swyddogol



## Awgrymiadau a dolenni defnyddiol: Mewngofnodi i'ch cyfrif

Dyddiedig: Awst 2016



**Rydym wedi creu'r canllaw hwn er mwyn helpu gyda phroblemau wrth fewngofnodi i'ch cyfrif Rhentu Doeth Cymru. Os ydych chi wedi rhoi tro ar yr awgrymiadau canlynol a bod y broblem yn parhau o hyd, mae croeso i chi gysylltu â ni. Ni ddylech fyth greu cyfrif newydd os na allwch fynd i mewn i'r hen un; cysylltwch â ni a byddwn yn sicrhau eich bod yn cael mynediad at eich cyfrif eto.**

- Pan fyddwch yn gofyn am gyfrinair newydd gan ddefnyddio'r botwm 'cyfrinair coll' ar ein gwefan, rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud y canlynol:
  - ✓ Caewch eich porwr yn gyfan gwbl (nid y tab rydych yn gweithio arno yn unig) a'i ailgychwyn.
  - ✓ Ewch i'ch dewisiadau rhynggrwyd yn eich porwr a dileu'r cwcis a'r cyfrineiriau a gaiff eu cofio. Mae'n ddoeth peidio byth â gadael i'r porwr gofio'r cyfrinair at eich cyfrif Rhentu Doeth Cymru.
- Ar ôl i chi wneud hyn, dylech ddod o hyd i'r e-bost a anfonwyd atoch o [noreply@rentsmart.gov.wales](mailto:noreply@rentsmart.gov.wales) a mewngofnodi gyda'ch enw defnyddiwr a'ch cyfrinair newydd. Y peth gorau yw copïo a gludo'r cyfrinair dros dro newydd o'r e-bost i'r maes cyfrinair ar y wefan er mwyn sicrhau y caiff ei ychwanegu yn union fel y dangosir (cofiwch ei fod yn sensitif i briflythrennau/llythrennau bach).
- Cofiwch fod eich enw defnyddiwr hefyd yn sensitif i faint llythrennau ac mae'n rhaid i chi ei roi i mewn yn union fel y'i gwelir, felly sicrhewch eich bod yn cynnwys y llythrennau bach a'r priflythrennau ac ati cywir.
- Pan fyddwch wedi mewngofnodi gyda'ch cyfrinair dros dro, gofynnir i chi greu cyfrinair newydd. Pan fyddwch yn dewis cyfrinair newydd, sicrhewch ei fod yn cynnwys o leiaf un briflythyren, o leiaf un llythyren fach, rhif a symbol, e.e. \$?!%. Mae'n rhaid i'r cyfrinair fod o leiaf 7 nod o hyd.
- Cefnogir ein gwefan ar y porwyr canlynol: Internet Explorer, Firefox, Safari a Chrome. Os nad ydych yn defnyddio un o'r porwyr hyn, rydym yn awgrymu rhoi cynnig ar un o'r rhain.

**! Cofiwch:** Arfer gorau yw allgofnodi o wefan Rhentu Doeth Cymru bob tro y byddwch yn ei gadael a chau'r porwr yn gyfan gwbl (nid y tab rydych yn gweithio arno yn unig). Mae hyn yn rhoi cyfle i'r wefan adnewyddu ei hun a bydd yn ei helpu i weithio'n well.

Os byddwch yn rhoi cynnig ar gyfrinair yn fwy na 5 gwaith yn olynol, bydd yn eich cloi allan o'ch cyfrif. Yr unig ffordd o gael mynediad eto yw gofyn am gyfrinair newydd trwy'r dewis 'cyfrinair coll' a dilyn yr **holl** gamau fel y disgrifir uchod (ac, yn bwysig, cau'r porwr yn gyfan gwbl cyn ceisio mewngofnodi eto).

**Os na allwch gofio eich enw defnyddiwr; dewch o hyd iddo yn eich e-byst (trwy chwilio am e-byst gan [noreply@rentsmart.gov.wales](mailto:noreply@rentsmart.gov.wales) gyda'r teitl: Account**

**Actifadu Cyfrif Rhentu Doeth Cymru) neu cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru a gallwn eich helpu.**

**Os nad ydych yn gwybod sut i gwblhau rhai o'r prosesau hyn, rydym wedi nodi rhai dolenni defnyddiol i chi isod o ran dileu cwcis a hanes yn y porwr. Dileu cwcis:**



Os ydych yn defnyddio Microsoft Internet Explorer

<https://support.microsoft.com/en-us/kb/2500386>



Os ydych yn defnyddio Google Chrome:

<https://support.google.com/chrome/answer/95606?co=GENIE.Platform%3DDesktop&hl=en>



Os ydych yn defnyddio Mozilla Firefox:

<https://support.mozilla.org/en-US/kb/password-manager-remember-delete-change-and-import>



Os ydych yn defnyddio Apple Safari:

[https://support.apple.com/kb/index?page=search&type=organic&src=support\\_searchbox\\_main&locale=en\\_GB&q=cookies](https://support.apple.com/kb/index?page=search&type=organic&src=support_searchbox_main&locale=en_GB&q=cookies)

**Dileu hanes yn y porwr:**



Os ydych yn defnyddio Microsoft Internet Explorer

<https://support.microsoft.com/en-gb/help/17438/windows-internet-explorer-view-delete-browsing-history>



Os ydych yn defnyddio Google Chrome:

<https://support.google.com/chrome/answer/2392709?co=GENIE.Platform%3DAndroid&hl=en-GB>



Os ydych yn defnyddio Mozilla Firefox:

<https://support.mozilla.org/en-US/kb/delete-browsing-search-download-history-firefox>



Os ydych yn defnyddio Apple Safari:

[https://support.apple.com/kb/PH17184?locale=en\\_GB](https://support.apple.com/kb/PH17184?locale=en_GB)